Grŵp Cynefin

Lle i Berthyn
A Place to Belong



# ADRODDIAD BLYNYDDOL GRŴP CYNEFIN

## 2025-26



# CROESO

Wrth imi adolygu 2025/26, rwy'n falch o'r cynnydd a wnaethom gyda'n gilydd ar draws Grŵp Cynefin. Bu hon yn flwyddyn o gryfhau ein sefydliad a chyflawni ar ein hymrwymiad i greu Lle i Berthyn i'n tenantiaid, cwsmeriaid, staff a chymunedau.

Mae ein Cynllun Corfforaethol, ***Lle i Berthyn 2025-28***, yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol, ac eleni fe wnaethon ni ganolbwyntio ar weithredu ar y weledigaeth honno. Gwnaethom gynnydd sylweddol ar draws ein prif flaenoriaethau, gan gynnwys datblygu ein rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru, cryfhau rheolaeth asedau, cyflawni elfennau allweddol o'n Rhaglen Drawsnewid Digidol a Data, a gwella perfformiad gwasanaethau.

Yn bwysicaf oll, rydyn ni wedi parhau i roi ein tenantiaid wrth galon ein gwaith. Ymgynghorwyd â mwy na 1,100 o denantiaid yn ystod y flwyddyn, gan helpu i lunio gwasanaethau a dylanwadu ar benderfyniadau. Trwy gyd-gynhyrchu a chydweithio, rydym yn adeiladu perthnasoedd cryfach ac yn darparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu'n well anghenion yr union bobl a chymunedau rydyn ni yn eu gwasanaethu.

Wrth inni symud i ail flwyddyn ein Cynllun Corfforaethol, bydd ein ffocws ar gyflymu'r gwaith o gyflawni, gwreiddio newid a pharhau i wella canlyniadau i denantiaid a chwsmeriaid. Byddwn yn parhau i ymrwymo i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel, gwasanaethau rhagorol a chymunedau ffyniannus, gan sicrhau bod ein gwerthoedd o fod yn Dryloyw, Cynhwysol a Blaengar yn parhau i lywio popeth a wnawn.

Hoffwn ddiolch i'n tenantiaid, cwsmeriaid, Aelodau'r Bwrdd, partneriaid a chydweithwyr am eu cefnogaeth, eu hymrwymiad a'u hymroddiad parhaus. Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu sefydliad sydd nid yn unig yn darparu cartrefi, ond sy'n creu cyfleoedd, yn cryfhau cymunedau ac yn darparu gwir le i berthyn.

**Mel Evans**
**Prif Weithredwr**





# GAIR GAN Y CADEIRYDD

Fel Cadeirydd Grŵp Cynefin, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26, blwyddyn lle gwelwyd y sefydliad yn parhau i gryfhau ac adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd drwy ein Cynllun Corfforaethol, Lle i Berthyn.

Yn ystod y flwyddyn, gwelsom gynnydd pwysig yn nifer o feysydd y Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys datblygu Cynllun Busnes 30 Mlynedd cryfach, gwelliannau mewn rheolaeth asedau, buddsoddi mewn trawsnewid digidol a chryfhau ein trefniadau llywodraethu ymhellach.

Un o gryfderau mwyaf Grŵp Cynefin yw ei ymrwymiad i wrando ar denantiaid a chymunedau. Mae eu barn yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth lywio penderfyniadau a chynorthwyo i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion y rhai rydym yn eu gwasanaethu.

Hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau Bwrdd am eu hymrwymiad, eu harbenigedd a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â'n tenantiaid, cleientiaid, staff a phartneriaid. Mae'r cyflawniadau a amlygir yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu ymdrechion ar y cyd nifer fawr o bobl gan weithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Wrth inni symud ymlaen i gam nesaf ein Cynllun Corfforaethol, mae'r Bwrdd yn uchelgeisiol ynghylch y dyfodol. Byddwn yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth gadarn, cefnogi buddsoddiad strategol a sicrhau bod Grŵp Cynefin yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi diogel o ansawdd uchel a chymunedau ffyniannus.

**Tim Jones**
**Cadeirydd, Grŵp Cynefin**

# LANSIO LLE I BERTHYN

"Mae lansio'r cynllun corfforaethol newydd yn gam pwysig oherwydd ei fod yn ailsefydlu Grŵp Cynefin yn ei gyfanrwydd, gan nodi ein cyfeiriad ar gyfer y dyfodol a'r strategaeth ar gyfer cyflawni ein amcanion."

Mel Evans, Prif Weithredwr

## Lle i Berthyn: Ein cynllun corfforaethol, wedi'i lunio gan ein pobl

Yn 2025, lansiodd Grŵp Cynefin ei Gynllun Corfforaethol newydd, Lle i Berthyn 2025-28. Mae'n nodi gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol y sefydliad ac yn ategu ei ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau rhagorol, cartrefi o ansawdd uchel a chefnogi cymunedau ffyniannus.

Datblygwyd y cynllun drwy broses gyd-ddylunio eang a oedd yn cynnwys mwy na 500 o denantiaid, cwsmeriaid, aelodau staff ac aelodau'r Bwrdd. Trwy weithdai, fforymau, gwibdeithiau a gweithgareddau ymgysylltu digidol, helpodd ein rhanddeiliaid i lunio blaenoriaethau ac uchelgeisiau'r grŵp ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Wedi'i adeiladu o amgylch y weledigaeth o fod yn "sefydliad cynhwysol ac effeithiol sy'n darparu cartrefi diogel, cynaliadwy o ansawdd", mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bum blaenoriaeth strategol:

- **Tenantiaid a Chwsmeriaid:** Darparu gwasanaeth cwsmer rhagorol i bawb.
- **Cartrefi:** Darparu cartrefi diogel, cynaliadwy o ansawdd uchel.
- **Pobl:** Meithrin gweithlu arloesol, cynhwysol a rhagweithiol.
- **Cymunedau:** Bod yn bartner strategol dibynadwy a gwydn.
- **Busnes:** Moderneiddio ein model gweithredu er mwyn cryfhau cysylltedd a gwytnwch ariannol.

Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses ymgysylltu oedd pwysigrwydd cryfhau llais a dylanwad cwsmeriaid. O ganlyniad, mae'r cynllun yn rhoi tenantiaid a chwsmeriaid wrth galon penderfyniadau, gwelliannau gwasanaeth a datblygiadau'r dyfodol.

Mae lansio Lle i Berthyn yn gam pwysig ymlaen i Grŵp Cynefin, gan ddarparu gweledigaeth a fframwaith cyffredin i lywio buddsoddiad, trawsnewid a darpariaeth gwasanaethau hyd at 2028.





# CRYNODEB O'R FLWYDDYN:

## Newyddion 2025-26 yn gryno

Yn ystod 2025-26, parhaodd Grŵp Cynefin i gryfhau ei rôl fel cymdeithas dai sy'n canolbwyntio ar gymunedau, gan fuddsoddi mewn cartrefi, cefnogi cymunedau, datblygu cyfleoedd tai newydd a gwella gwasanaethau i denantiaid ledled gogledd Cymru a gogledd Powys.

Un o brif gerrig milltir y flwyddyn oedd lansio Cynllun Corfforaethol newydd y sefydliad ar gyfer 2025-2028, **Lle i Berthyn**, a nododd weledigaeth uchelgeisiol i helpu i fynd i'r afael â diboblogi gwledig, cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a chryfhau cymunedau ledled y rhanbarth. Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu 300 o gartrefi newydd erbyn 2028, gan sicrhau ar yr un pryd fod cymunedau'n parhau'n fywiog ac yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Buddsoddi Mewn Cartrefi a Gwasanaethau

Gwelwyd buddsoddiad sylweddol mewn darpariaeth tai a gwasanaethau eiddo yn ystod y flwyddyn. Ehangodd Grŵp Cynefin ei dimau cynnal a chadw mewnol (DLO), gan lansio ymgyrchoedd recriwtio mawr i gynyddu capasiti, gwella effeithlonrwydd a sicrhau bod cartrefi ar gael i denantiaid yn gyflymach. Cafodd cyfleoedd prentisiaeth newydd eu creu hefyd, gan gefnogi datblygiad y gweithlu a darparu llwybrau gyrfa i bobl leol.

Parhaodd gwaith ar amrywiaeth o ddatblygiadau tai a chynlluniau'r dyfodol. Lansiwyd arolygon anghenion tai mewn cymunedau megis Bae Trearddur, tra bod datblygiadau gan gynnwys ehangu Llys Awelon yn Rhuthun gwerth £12.2 miliwn a'r rhaglen cartrefi carbon isel yn Stryd Henllan, Dinbych, yn dangos ymrwymiad parhaus Grŵp Cynefin i ddarparu cartrefi o ansawdd uchel sy'n effeithlon o ran ynni.



### Cefnogi Cymunedau

Parhaodd buddsoddi mewn cymunedau yn thema gref drwy gydol y flwyddyn. Bu Grŵp Cynefin yn gweithio gyda phartneriaid ledled gogledd Cymru i ddarparu prosiectau sy'n gwella llesiant, yn cryfhau cydlyniant cymunedol ac yn creu cyfleoedd i denantiaid. Roedd y mentrau hyn yn cynnwys prosiectau rhyng-genedlaethol, cefnogaeth i ymgyrchoedd ymwybyddiaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gweithgareddau i fynd i'r afael â digartrefedd a diogelwch cymunedol.

Bu'r sefydliad hefyd yn cydweithio â chontractwyr a phartneriaid datblygu i ddarparu rhoddion cymunedol a chefnogi prosiectau dros gyfnod y Nadolig, gan ddangos ei ymrwymiad i greu gwerth cymdeithasol drwy weithgareddau caffael a datblygu. Parhaodd Grŵp Cynefin i hyrwyddo diwylliant a'r Gymraeg, gan weithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai eraill i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, gan amlygu'r cysylltiad pwysig rhwng tai, hunaniaeth gymunedol a chynaliadwyedd diwylliannol.





### Cydnabyddiaeth a Llwyddiant

Derbyniodd y sefydliad gydnabyddiaeth allanol sylweddol yn ystod y flwyddyn. Cafodd Grŵp Cynefin **ddwy wobr yng Ngwobrau Arfer Da TPAS Cymru**, gyda phrosiectau'n cael eu canmol am ymgysylltu â thenantiaid a mentrau amgylcheddol. Dilynwyd y llwyddiant hwn gan gydnabyddiaeth genedlaethol bellach am ei waith cyfranogiad tenantiaid a'i fentrau cymunedol.

Cafodd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon yn Rhuthun ganmoliaeth genedlaethol hefyd, gan **ennill Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu LABC Cymru** yn dilyn ei ailddatblygu a'i ehangu. Roedd agoriad swyddogol y cynllun yn garreg filltir bwysig wrth ddarparu llety o ansawdd uchel sy'n cefnogi byw'n annibynnol i bobl hŷn.

### Ymgysylltu a Ffocws ar Denantiaid

Parhaodd gwrando ar denantiaid yn ganolog i waith y sefydliad. Drwy gydol y flwyddyn, cryfhaodd Grŵp Cynefin ei waith ymgysylltu â thenantiaid drwy wibdeithiau, ymgyngoriadau a gwaith partneriaeth gyda sefydliadau gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru. Darparodd y mentrau hyn gyfleoedd i breswylwyr rannu adborth, dylanwadu ar wasanaethau a helpu i lunio blaenoriaethau lleol.

Roedd cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol 2024-25 a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol llwyddiannus hefyd yn dangos ymrwymiad parhaus y sefydliad i dryloywder, atebolrwydd ac ymgysylltu â thenantiaid, rhanddeiliaid a chymunedau.

### Edrych Ymlaen

Wrth i'r flwyddyn ddod i ben, cyhoeddodd Grŵp Cynefin fuddsoddiad pellach yn ei Wasanaeth Tai, gan gynnwys penodiadau arweinyddiaeth a gweithgarwch recriwtio wedi'i gynllunio i gryfhau gwasanaethau cymorth tenantiaeth a pharatoi'r sefydliad ar gyfer twf yn y dyfodol. Mae'r datblygiadau hyn yn gosod y sefydliad mewn sefyllfa gref i gyflawni amcanion ei Gynllun Corfforaethol a pharhau i greu lleoedd lle gall pobl ffynnu a pherthyn.

Ar y cyfan, roedd 2025-26 yn flwyddyn o fuddsoddi, twf a chydnabyddiaeth, wedi'i nodweddu gan gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer cartrefi newydd, gwasanaethau tenantiaid gwell, partneriaethau cryf a ffocws parhaus ar gefnogi cymunedau Cymreig cynaliadwy.

# GWEITHREDU LLE I BERTHYN

"Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi cryfhau ein trefniadau llywodraethu, lansio rhaglenni trawsnewidiol ac alinio ein cynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Y sialens nawr yw adeiladu ar y momentwm hwn a throi'r sylfeini hyn yn ganlyniadau mesuradwy sy'n gwella bywydau ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n cymunedau."

Tim Jones, Cadeirydd

## Cipolwg ar y Flwyddyn

- Roedd 66.8% o'r amcanion strategol ar y trywydd cywir neu'n perfformio'n uwch na'r disgwyl ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cymeradwywyd Fframwaith Adrodd Perfformiad newydd ac mae'n cael ei weithredu.
- Sefydlwyd y Rhaglen Trawsnewid Digidol a Data ac mae'n mynd rhagddi'n dda.
- Mae Canolfan Gweithrediadau Diogelwch 24/7 yn darparu monitro seiberddiogelwch gwell.
- Cwblhawyd adolygiadau o daliadau gwasanaeth a dyraniadau tai.
- Cwblhawyd cam cyntaf y rhaglen rhesymoli swyddfeydd.
- Datblygwyd Cynllun Busnes 30 Mlynedd newydd i lywio buddsoddiad a chyflawni yn y dyfodol.
- Roedd 27 o'r 37 dangosydd Cynllun Corfforaethol yn perfformio ar darged neu'n uwch.
- Parhawyd â chydweithio strategol ar draws partneriaethau tai gogledd Cymru.






### Cynnydd cryf wrth gyflawni ein cynllun corfforaethol

Yn ystod 2025/26, canolbwyntiodd Grŵp Cynefin ar osod y sylfeini ar gyfer cyflawni Lle i Berthyn 2025-28, ein Cynllun Corfforaethol newydd. Roedd hon yn flwyddyn o gryfhau llywodraethu, gwella prosesau busnes a lansio rhaglenni trawsnewidiol a fydd yn helpu i lunio dyfodol y sefydliad.

Mewn blwyddyn a oedd yn cynnwys newidiadau arwain a ffocws strategol ar ddatblygu Cynllun Busnes 30 Mlynedd newydd, gwnaeth y sefydliad gynnydd sylweddol yn erbyn ei flaenoriaethau. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd mwy na dwy ran o dair o'r amcanion strategol ar y trywydd cywir neu'n perfformio'n uwch na'r disgwyl, gan adlewyrchu momentwm cadarnhaol, gwydnwch sefydliadol a sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni yn y dyfodol.

### Rhaglen Trawsnewid Digidol a Data

Roedd y flwyddyn hefyd yn nodi lansiad ein Rhaglen Trawsnewid Digidol a Data, gan osod y sylfeini ar gyfer taith drawsnewid aml-flwyddyn a fydd yn moderneiddio ein systemau, cryfhau ein defnydd o ddata a gwella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom:

- **Atgyfnerthu ein mesurau seiberddiogelwch.**
- **Sefydlu Canolfan Gweithrediadau Diogelwch 24/7 i wella gwydnwch y sefydliad.**
- **Lansio mewnrwyd newydd.**
- **Cyflwyno trefniadau rheoli dogfennau cryfach.**
- **Datblygu Fframwaith Adrodd Perfformiad newydd.**
- **Datblygu cynllun newydd ar gyfer gwella data.**

Dechreuom hefyd fapio prif deithiau cwsmeriaid er mwyn deall profiadau cwsmeriaid yn well a helpu i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.




## Cyflawni gwelliannau ar draws ein gwasanaethau

Ar draws y sefydliad, bu timau'n gweithio gyda'i gilydd i wella perfformiad gweithredol a pharatoi ar gyfer twf yn y dyfodol.

Cafodd Cynllun Rheoli Asedau Strategol newydd ei alinio â'r Cynllun Busnes 30 Mlynedd, tra parhaodd gwaith i gryfhau cydymffurfiaeth, cynllunio buddsoddiad a rhesymoli stoc.

Cwblhawyd y rhaglen o welliannau i gartrefi gwag, gyda'r DLO newydd ei sefydlu bellach yn cyflawni'r gwaith yn fewnol, gan ddarparu sylfaen gref ar gyfer ehangu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

O fewn ein gwasanaethau cymdogaeth a chymorth, cwblhawyd adolygiadau o ddyraniadau tai a thaliadau gwasanaeth, datblygwyd dulliau newydd o atal digartrefedd, a pharhawyd i gryfhau gwaith partneriaeth ledled Gogledd Cymru.

Gwnaeth gwasanaethau canolog gynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn drwy wella llywodraethu, rheolaeth ariannol, gwasanaethau pobl, dysgu a datblygu, caffael, a'n gallu digidol a data. Mae'r gwaith hwn wedi cryfhau gallu'r sefydliad, ei wydnwch, a'i barodrwydd ar gyfer y dyfodol.



## Gweithio gyda'n gilydd i greu mwy o effaith

Parhaodd cydweithio i fod wrth wraidd ein dull gweithredu drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethom barhau i gryfhau perthnasoedd â chymdeithasau tai partner, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol, tra bod ein his-gwmnïau, Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, yn parhau i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Trwy gydweithio, rydym mewn gwell sefyllfa i ymateb i anghenion tai sy'n newid, darparu gwasanaethau cymorth effeithiol a chreu gwerth cymdeithasol parhaol ar draws y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.




## Gwella'r daith i'n cwsmeriaid

Un o'r prif ffocysau yn ystod y flwyddyn fu cyflwyno ein Prosiect Taith y Cwsmer, sydd wedi rhoi mewnwelediad tenantiaid wrth galon gwella gwasanaethau. Trwy gyfres o weithdai cyd-ddylunio, mae tenantiaid wedi chwarae rhan weithredol wrth lunio gwasanaethau'r dyfodol drwy nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella prosesau a rhannu eu profiadau bywyd. Mae'r prosiect yn parhau i ddatblygu, a bydd datblygu set newydd o Safonau Gwasanaeth hefyd yn gwella atebolrwydd, cysondeb a phrofiad cyffredinol cwsmeriaid ar draws y sefydliad.

**"Mae Grŵp Cynefin yn cynnwys tenantiaid a chwsmeriaid wrth helpu i lunio penderfyniadau strategol. Mae gwybod bod ein lleisiau'n cael eu clywed yn rhoi hyder i mi fod y sefydliad yn symud i'r cyfeiriad cywir ac yn gwneud penderfyniadau am y rhesymau cywir."**

**Catherine Jones,**
**Cadeirydd Grŵp Tenantiaid**

## Edrych i'r Dyfodol

Wrth inni symud i ail flwyddyn y Cynllun Corfforaethol, bydd ein ffocws yn symud o adeiladu sylfeini i gyflymu'r gwaith o gyflawni. Mae'r prif flaenoriaethau'n cynnwys gweithredu'r Cynllun Busnes 30 Mlynedd, gwreiddio'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol, datblygu'r Model Gweithredu Targed, moderneiddio ein ffordd o weithio, a pharhau i gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Digidol a Data uchelgeisiol.

Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod 2025/26 wedi darparu llwyfan cadarn ar gyfer y dyfodol. Drwy gynnal ein ffocws ar gwsmeriaid, cydweithio, arloesi a chynaliadwyedd, byddwn yn parhau i greu lleoedd lle gall pobl ffynnu a theimlo eu bod yn perthyn.

# ADRAN GWEITHREDIADAU

## Tai a Thai â Chefnogaeth

### Cefnogi Tenantiaethau Cynaliadwy a Chymunedau Ffyniannus

"Mae cyflawniadau'r timau Rheoli Tai eleni yn dangos grym rhoi pobl yn gyntaf. Boed yn helpu teulu i gynnal eu cartref, cefnogi tenantiaid drwy heriau ariannol neu weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth, mae ein cydweithwyr wedi dangos ymroddiad a thosturi eithriadol. Rwy'n arbennig o falch ein bod wedi sicrhau dim adfeddiannu tra'n parhau i ddarparu cymorth ymarferol sy'n helpu pobl i ffynnu yn eu cartrefi a'u cymunedau."

Rhiannon Dafydd, Pennaeth Tai

## Cipolwg ar y Flwyddyn

- 250 o gartrefi wedi'u gosod yn ystod y flwyddyn, gydag eiddo'n cael eu dyrannu o fewn 4 diwrnod i fod yn barod i'w meddiannu.
- Dim adfeddiannu wedi'i gyflawni drwy gynnal tenantiaethau'n rhagweithiol ac ymyrraeth gynnar.
- £27.3m o incwm rhent a thaliadau gwasanaeth wedi'u casglu.
- 2.3% o ôl-ddyledion rhent ym mis Mawrth 2026, i lawr o 2.63% yn 2024/25.
- £1.27m o enillion ariannol parhaus wedi'u sicrhau i denantiaid drwy gymorth y Tîm Lles.
- 104 o denantiaid yn cael eu cefnogi bob mis ar gyfartaledd gan y Tîm Lles.
- 345 o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u rheoli ar draws ein cymunedau.
- 133 o gyfarfodydd amlasiantaethol wedi'u cynnal i gefnogi 44 o denantiaid ag anghenion cymhleth.
- 10 cais cyfnewid eiddo wedi'u cefnogi rhwng tenantiaid.
- 21 achos olyniaeth wedi'u rheoli'n llwyddiannus.



### Rhoi tenantiaid wrth galon gwasanaethau tai

Yn ystod 2025/26, parhaodd timau Rheoli Tai Grŵp Cynefin i ddarparu cymorth hanfodol a helpodd denantiaid i gynnal eu tenantiaethau, gwneud y mwyaf o'u hincwm a byw'n ddiogel yn eu cymunedau. Trwy gyfuniad o reolaeth dai ragweithiol, cymorth lles, casglu incwm a gweithio mewn partneriaeth, gwnaethom gynnal perfformiad cryf wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i rai o'n tenantiaid mwyaf bregus.

### Cartrefi'n cael eu gosod yn gyflym ac yn effeithlon

Mae darparu mynediad at dai o ansawdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Yn ystod y flwyddyn, gosodwyd 250 o gartrefi, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr Datblygu a Rheoli Asedau i sicrhau bod eiddo'n barod i'w meddiannu cyn gynted â phosibl. Ar gyfartaledd, roedd cartrefi'n cael eu gosod o fewn pedwar diwrnod i ddod yn wag, gan helpu i fynd i'r afael ag angen tai ar draws ein cymunedau.

Parhaodd y tîm Rheoli Tai i ddarparu gwasanaethau yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, gan sicrhau bod tenantiaid yn cael y cymorth a'r wybodaeth angenrheidiol drwy gydol eu taith denantiaeth.

### Cefnogi gwydnwch ariannol

Gyda llawer o aelwydydd yn parhau i wynebu pwysau ariannol, chwaraeodd ein timau Casglu Incwm a Lles rôl allweddol wrth gefnogi tenantiaid a diogelu cynaliadwyedd tenantiaethau. Yn ystod y flwyddyn, casglwyd £27.3 miliwn mewn rhent a thaliadau gwasanaeth, tra gostyngodd ôl-ddyledion rhent i 2.3%, o gymharu â 2.63% yn 2024/25. Mae hyn yn adlewyrchu dull rhagweithiol y tîm o ran ymgysylltu, cymorth ac ymyrraeth gynnar.

Parhaodd y Tîm Lles i wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau tenantiaid, gan sicrhau enillion ariannol parhaus gwerth £1.27 miliwn ac yn cefnogi cyfartaledd o 104 o denantiaid bob mis. Helpodd y cymorth hwn breswylwyr i gael mynediad at fudd-daliadau, gwneud y mwyaf o'u hincwm a gwella eu sefydlogrwydd ariannol hirdymor.



### Gweithio gyda'n gilydd i gadw cymunedau'n ddiogel

Yn ystod 2025/26, rheolodd y tîm 345 o achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws tri chategori a chyflwynodd Bolisi Cymdogaeth Dda Grŵp Cynefin, gan atgyfnerthu disgwyliadau ynghylch parch, cyfrifoldeb a lles cymunedol.

Yn ogystal â'r gwaith hwn, bu Swyddogion Tai yn cydweithio'n helaeth â phartneriaid allanol er mwyn cefnogi tenantiaid bregus a rheoli sefyllfaoedd cymhleth. Cynhaliwyd cyfanswm o 133 o gyfarfodydd amlasiantaethol yn cynnwys 44 o denantiaid, gan ddangos gwerth gweithio mewn partneriaeth wrth fynd i'r afael ag anghenion cymhleth yn ymwneud â thai, iechyd a llesiant.

### Cynnal tenantiaethau drwy bartneriaeth a chymorth

Parhaodd timau Rheoli Tai i ganolbwyntio ar helpu pobl i barhau i fyw yn llwyddiannus yn eu cartrefi drwy amgylchiadau heriol. Yn ystod y flwyddyn roedd 10 cais am gyfnewid eiddo ac 21 achos olyniaeth, gan sicrhau bod cartrefi'n parhau i ddiwallu anghenion newidiol preswylwyr.

Daeth llawer o ganlyniadau mwyaf dylanwadol y flwyddyn drwy gydweithio agos â gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd meddwl ac asiantaethau cymorth arbenigol. Galluogodd y partneriaethau hyn denantiaid bregus i gael cymorth cydgysylltiedig wrth gynnal eu hannibyniaeth a'u tenantiaethau.



## Stori Tenant

“Ymwelais â’r teulu yn eu cartref newydd ac roedd gweld y gwahaniaeth y mae wedi’i wneud yn emosiynol iawn. Mae’r person ifanc bellach yn gallu symud o gwmpas yn ddiogel, wedi ennill mwy o annibyniaeth ac yn mwynhau gweithgareddau bob dydd a oedd yn anodd iddo o’r blaen. Mae’r symud wedi trawsnewid ei ansawdd bywyd.”

**Adborth gan aelod o’r teulu yn dilyn ymyrraeth dai.**

## Newid Bywydau Trwy Gymorth

Yn Grŵp Cynefin, mae ein gwasanaethau tai â chefnogaeth yn darparu cymorth hanfodol i rai o’r bobl fwyaf bregus, gan helpu unigolion a theuluoedd i ailadeiladu eu bywydau, adennill hyder a sicrhau dyfodol mwy disglair.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cefnogodd ein Gwasanaethau Cam-drin Domestig yng Ngwynedd a Môn 754 o oedolion a 174 o blant, gan ddarparu llety diogel, cymorth ymarferol ac arweiniad arbenigol i’r rhai yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin domestig. Trwy weithio’n agos gyda goroeswyr, rydym yn helpu pobl i symud tuag at fwy o ddiogelwch, annibyniaeth a llesiant.

Mae ein hymrwymiad i atal digartrefedd hefyd yn parhau i wneud gwahaniaeth sylweddol ledled y rhanbarth. Trwy ein Gwasanaethau Atal Digartrefedd yng Ngwynedd, Môn a Sir Ddinbych, fe wnaethom gefnogi 391 o bobl, gan eu helpu i gael mynediad at dai, cynnal tenantiaethau a goresgyn yr heriau a all eu rhoi mewn perygl o ddigartrefedd.

## Edrych Ymlaen

Wrth i bwysau tai barhau i esblygu, mae ein ffocws yn parhau i fod ar gefnogi tenantiaid i gynnal eu cartrefi, cryfhau cymunedau a darparu gwasanaethau sy’n gwneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau pobl. Trwy ymyrraeth gynnar, partneriaethau cryf ac ymrwymiad i lesiant cwsmeriaid, byddwn yn parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i denantiaid ar draws y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.



# POBL A DIWYLLIANT

“Yn Grŵp Cynefin, mae pobl wrth galon popeth a wnawn. Boed hynny drwy gefnogi a datblygu ein gweithwyr, sicrhau diogelwch a llesiant ein tenantiaid, cryfhau cymunedau neu greu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol, mae ein gwerthoedd yn llywio pob agwedd ar ein gwaith. Trwy gyfathrebu cryf, ymgysylltu ystyrlon ac ymrwymiad i gynhwysiant, rydym yn gweithio’n agos gyda thenantiaid, cymunedau a phartneriaid i lunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau sy’n cael effaith gadarnhaol.

Rydym yn falch o fuddsoddi mewn datblygu talent y dyfodol, hyrwyddo’r Gymraeg a chreu llwybrau i yrfaoedd gwerth chweil, gan sicrhau ar yr un pryd fod lleisiau ein tenantiaid a’n cymunedau yn parhau i ddylanwadu ar ein blaenoriaethau a’n helpu i adeiladu Lle i Berthyn i bawb.”

**Nerys Price-Jones, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant**

## Rhoi Tenantiaid wrth Galon Popeth a Wnawn

Yn Grŵp Cynefin, rydyn ni’n credu bod y cymunedau cryfaf yn cael eu hadeiladu pan fo gan denantiaid lais gwirioneddol wrth lunio’r gwasanaethau a’r lleoedd sy’n bwysig iddynt. Yn ystod 2025/26, gwnaethom gryfhau cyfleoedd i gymryd rhan, gan sicrhau bod tenantiaid yn chwarae rhan ganolog wrth ddylanwadu ar benderfyniadau, gwella gwasanaethau a helpu i lunio cyfeiriad y sefydliad yn y dyfodol.

Ymgynghorwyd â mwy na 1,100 o denantiaid yn ystod y flwyddyn, tra bod 36 o denantiaid gweithgar wedi helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau ar draws 38 maes gwaith, o welliannau tai a datblygu polisïau i osod cyllidebau a dylunio gwasanaethau.



## Creu Cyfleoedd a Gwella Bywydau

Parhawyd i fuddsoddi mewn rhaglenni sy'n helpu pobl i ffynnu, gan gefnogi llesiant ariannol, cyflogaeth, cynhwysiant digidol a chadernid cymunedol.

- Sicrhawyd **£1.27 miliwn** o enillion ariannol i denantiaid drwy wasanaethau cymorth a chyngor lles.
- Derbyniodd **233 o denantiaid** gymorth gan ein gwasanaeth **Warden Ynni** i leihau costau tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni.
- Cafodd **37 o denantiaid** gymorth digidol wedi'i deilwra, gan eu helpu i gael mynediad at wasanaethau, cyfleoedd ac adnoddau ar-lein.
- Derbyniodd **23 o unigolion** gymorth a chyngor cyflogaeth, gyda grantiau'n helpu pobl i symud yn nes at hyfforddiant, gwaith a hunangyflogaeth.
- Cynhaliwyd **mwy na 30 o weithgareddau iechyd a llesiant**, gan helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a chefnogi ffyrdd iachach o fyw.

## Hybiau Cymunedol

Parhaodd ein hybiau cymunedol, **HWB Dinbych** a **Congl Meinciau**, i ddarparu mannau croesawgar lle gallai trigolion gael mynediad at gyngor, cyfleoedd dysgu, cymorth llesiant a gweithgareddau cymunedol.

## Cipolwg

- 1,100+ o denantiaid wedi'u hymgynghori
- £1.27 miliwn o enillion ariannol wedi'u sicrhau
- 233 o denantiaid wedi derbyn cyngor ynni

## Bywiogi Brand

Mae'r tîm Cyfathrebu a Marchnata wedi chwarae rhan allweddol wrth gryfhau hunaniaeth, ymgysylltiad a gwelededd Grŵp Cynefin yn ystod y flwyddyn.

Fe wnaethom adnewyddu a moderneiddio brand y sefydliad yn llwyddiannus, gan gyflwyno elfennau gweledol, lliwiau a theipograffeg wedi'u diweddaru, tra'n sicrhau bod y llinell frand **Lle i Berthyn** yn cael ei chynrychioli'n amlwg ac yn gyson ym mhob cyfathrebiad.

Yn ogystal, datblygwyd **Fframwaith Llais a Brand** cynhwysfawr mewn cydweithrediad â staff a thenantiaid, er mwyn sicrhau dull clir, dilys a chyson o gyfathrebu ar draws y sefydliad.

Cafodd cyfathrebu mewnol ei gryfhau ymhellach drwy ddatblygu'r fewnrwyd **Clic** yn barhaus a chyflwyno'r nodwedd fyw **Lle am Sgwrs**, gan greu cyfleoedd newydd i staff ymgysylltu, cydweithio a rhannu gwybodaeth amserol.

Mae'r mentrau hyn wedi helpu i gryfhau sianeli cyfathrebu mewnol a chefnogi gweithlu mwy cysylltiedig.

Yn allanol, mae'r tîm wedi hyrwyddo Grŵp Cynefin yn weithredol drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu, ymgysylltu â'r cyfryngau a chyfathrebu digidol, gan godi proffil y sefydliad a chynyddu ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau, cyflawniadau a'n heffaith ar draws y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Gwnaethom hefyd chwarae rhan allweddol wrth sicrhau presenoldeb yn yr **Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam**, gan arddangos ein gwaith, ymgysylltu ag ymwelwyr a chryfhau ein proffil fel cymdeithas dai gymunedol ar draws Gogledd Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r gwelliannau hyn wedi cynyddu gwelededd y sefydliad ac wedi gwella effeithiolrwydd ein cyfathrebiadau.





## Datblygu Talent y Dyfodol, Prentisiaethau a Phartneriaethau Addysg

Yn ystod 2025/26, buom yn gweithio gyda ysgolion, colegau, prifysgolion a sefydliadau partner ledled Gogledd Cymru i hyrwyddo gyrfaoedd, datblygu sgiliau a chefnogi talent y dyfodol.

Parhawyd hefyd i gynnig prentisiaethau a lleoliadau gwaith, gan helpu pobl i ennill profiad gwerthfawr ac adeiladu gyrfaoedd llwyddiannus.



## Uchafbwyntiau

- Cynhaliwyd **24 o weithgareddau ymgysylltu addysgol** ledled Gogledd Cymru.
- Cefnogwyd pobl ifanc drwy ffeiriau gyrfaoedd, digwyddiadau cyflogwyr a chyfweliadau ffug.
- Cynhaliwyd sesiynau **Cymraeg yn y Gweithle** i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gwaith.
- Codwyd ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa yng Ngrŵp Cynefin ac yn y sector tai.
- Cryfhawyd partneriaethau gyda **Phrifysgol Bangor** a **Choleg Meirion-Dwyfor**.
- Ymgysylltwyd â dysgwyr ar draws Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.
- Parhawyd i gynnig cyfleoedd prentisiaeth.
- Cefnogwyd prentisiaid a hyfforddeion i ennill cymwysterau a sgiliau yn y gweithle.
- Defnyddiwyd prentisiaethau a lleoliadau gwaith i ddenu a datblygu talent y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi pobl i mewn i gyflogaeth, hyrwyddo'r Gymraeg a buddsoddi mewn cymunedau lleol. Trwy ein partneriaethau addysg a'n rhaglenni prentisiaeth, rydym yn helpu i ddatblygu gweithlu'r dyfodol tra'n cryfhau enw da Grŵp Cynefin fel cyflogwr o ddewis.

# ASEDAU A THWF – ASEDAU

## Buddsoddi mewn Cartrefi Diogel a Chynaliadwy

"Mae buddsoddi yn ein cartrefi yn ymwneud â llawer mwy na chynnal adeiladau. Mae'n ymwneud â gwella ansawdd bywyd ein tenantiaid a sicrhau bod ein cymunedau'n gallu ffynnu am genedlaethau i ddod. Drwy ein rhaglen ôl-osod, rydym yn gwneud cartrefi'n gynhesach, yn fwy effeithlon o ran ynni ac yn fwy fforddiadwy i'w rhedeg, gan helpu tenantiaid i leihau eu costau ynni a chefnogi ein taith tuag at Sero Net Carbon.

Mae'r buddsoddiad parhaus yn ein gweithlu mewnol (DLO) yr un mor bwysig. Mae cael tîm mewnol medrus yn ein galluogi i gyflawni gwelliannau'n fwy effeithlon, ymateb yn fwy effeithiol i anghenion tenantiaid a chynnal safonau uchel ar draws ein stoc dai. Trwy gyfuno buddsoddiad ôl-osod wedi'i dargedu â gwasanaeth DLO cryf, rydym yn creu cartrefi mwy diogel, gwyrddach a mwy cynaliadwy sy'n darparu buddion parhaol i'n tenantiaid a'n cymunedau."

Rhodri Owen, Cyfarwyddwr Asedau a Thwf





## Cipolwg

- **107 o gartrefi wedi'u huwchraddio drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio**
- **100% o'r cartrefi newydd wedi cyflawni sgôr EPC A**
- **100% o gydymffurfiaeth diogelwch nwy**
- **100% o asesiadau risg tân wedi'u cwblhau**
- **£4.3 miliwn wedi'i sicrhau ar gyfer rhaglen fuddsoddi ôl-osod 2026/27**
- **90% o gydymffurfiaeth ragamcanol â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC / WHQS) ar draws ein cartrefi**
- **60% o'r holl waith adnewyddu eiddo gwag (voids) wedi'i gwblhau gan ein tîm DLO mewnol.**
- **Mae targed wedi'i osod ar gyfer 2026/27 i gynyddu cyfran y gwaith atgyweirio ymatebol a gyflawnir gan y DLO i 40%.**









Yn ystod 2025/26, parhaodd Grŵp Cynefin i fuddsoddi yn ansawdd, diogelwch a chynaliadwyedd cartrefi ledled Gogledd Cymru a Phowys. O raglenni gwella mawr ac uwchraddio effeithlonrwydd ynni i gynnal safonau cydymffurfiaeth eithriadol, ein ffocws fu creu cartrefi lle gall pobl ffynnu.

Gwnaethom gynnal 100% o gydymffurfiaeth diogelwch nwy a 100% o gydymffurfiaeth asesiadau risg tân, tra'n parhau i wella cartrefi drwy ein rhaglen fuddsoddi gynlluniedig ac ymrwymiadau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC / WHQS).

### Cartrefi Cynaliadwy ar gyfer y Dyfodol

Drwy Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru, uwchraddiwyd 107 o gartrefi i gyrraedd sgôr EPC C neu uwch, gan helpu i leihau costau ynni a gwella cysur tenantiaid.

Sicrhawyd cyllid pellach i wella bron i 200 o gartrefi ychwanegol dros y flwyddyn nesaf, gan gryfhau ein taith tuag at gyflawni Sero Net Carbon erbyn 2044.

Cyrhaeddodd pob cartref newydd a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn sgôr EPC A, gan sicrhau bod trigolion yn elwa ar rai o'r cartrefi mwyaf effeithlon o ran ynni sydd ar gael.

### Creu Gwerth Tymor Hir

Roedd eleni'n gam pwysig ymlaen wrth foderneiddio'r ffordd rydym yn rheoli asedau ar draws Grŵp Cynefin. Drwy gyflwyno dull mwy seiliedig ar ddata o wneud penderfyniadau buddsoddi a chryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rhaglenni buddsoddi, rydym yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle maent yn cael yr effaith fwyaf ar denantiaid, cartrefi a chymunedau.

### Edrych Ymlaen

Gyda buddsoddiad sylweddol wedi'i sicrhau ar gyfer gwaith ôl-osod, cynnydd parhaus tuag at gydymffurfio â SATC, a ffocws o'r newydd ar reoli asedau'n strategol, rydym yn adeiladu'r sylfeini ar gyfer cartrefi mwy diogel, gwyrddach a mwy cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



# ASEDAU A THWF – DATBLYGU

## Datblygu Cartrefi, Cryfhau Cymunedau

**"Er gwaethaf amgylchedd datblygu heriol, rydym wedi parhau i wneud cynnydd tuag at ddarparu cartrefi fforddiadwy y mae mawr eu hangen. Mae ein ffocws yn parhau ar greu cymunedau cynaliadwy, cryfhau partneriaethau ac adeiladu piblinell ddatblygu a fydd yn ein galluogi i ddiwallu anghenion tai'r dyfodol ledled ein ardal weithredol."**

**Arwyn Evans, Pennaeth Datblygu**

Yn ystod 2025/26, parhaodd Grŵp Cynefin i fuddsoddi mewn creu cartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel sy'n helpu i ddiwallu'r angen lleol am dai ar draws ein cymunedau.

Er bod yr amgylchedd datblygu allanol yn parhau i fod yn heriol, gyda phwysau yn ymwneud â chynllunio, costau adeiladu a threfniadau cyllido, llwyddwyd i gwblhau **32 o gartrefi fforddiadwy newydd** yn ystod y flwyddyn. Parhawyd hefyd i ddatblygu rhaglen ddatblygu sylweddol ar gyfer y dyfodol. Ein ffocws yw darparu cartrefi cynaliadwy sy'n galluogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i ffynnu.



### Adeiladu ar gyfer y Dyfodol

Mae'r galw am dai ar draws ein hardal weithredu yn parhau i gynyddu, ac yn ystod y flwyddyn buom yn gweithio'n agos gyda awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid datblygu i nodi a darparu cyfleoedd tai newydd.

Er mai targed gwreiddiol y Cynllun Corfforaethol oedd darparu **47 o gartrefi** yn ystod 2025/26, effeithiodd amodau ehangach y farchnad ar amserlenni cyflawni. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd sylweddol ar nifer o gynlluniau a fydd yn cefnogi cwblhau mwy o gartrefi yn y dyfodol ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer twf parhaus.

Mae'r rhagolygon presennol yn dangos y bydd **39 o gartrefi ychwanegol** yn cael eu cwblhau yn ystod 2026/27 a **133 o gartrefi** yn ystod 2027/28.

Yn ogystal â'n rhaglen adeiladu newydd, un o gerrig milltir pwysicaf y flwyddyn oedd cwblhau ac agor yn swyddogol **Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon yn Rhuthun**, wedi'i ailddatblygu.

Yn dilyn rhaglen fuddsoddi tair blynedd gwerth **£12.2 miliwn**, mae'r cynllun wedi'i drawsnewid yn gymuned





fodern bwrpasol sy'n cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol, tra'n cael mynediad at ofal a chymorth pan fo angen. Cynyddodd y prosiect nifer y fflatiau o **21 i 56**, gan gynrychioli buddsoddiad sylweddol mewn dewis tai i bobl hŷn ledled Sir Ddinbych.

Gwelwyd cynnydd parhaus hefyd ar safle **Stryd Henllan, Dinbych**, lle mae **11 o gartrefi carbon isel** yn cael eu datblygu. Mae'r cartrefi hyn yn cynnwys technolegau adnewyddadwy megis paneli solar a phympiau gwres ffynhonnell aer, gan helpu i greu cartrefi cynaliadwy ac effeithlon o ran ynni ar gyfer tenantiaid y dyfodol.

Gwnaed cynnydd ar safleoedd yn Nefyn a Betws y Coed yn ystod 2025-26.

### Cynllunio ar gyfer Twf Hirdymor

Yn ogystal â'r datblygiadau sydd eisoes ar y gweill, rydym yn symud ymlaen gyda phiblinell uchelgeisiol o gynlluniau'r dyfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag angen tai am flynyddoedd i ddod.

Mae ein piblinell bresennol yn cynnwys cynigion ar gyfer **267 o gartrefi ychwanegol** yn ystod 2028/29 a 2029/30.

Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cynnwys yng nghynlluniau busnes hirdymor a rhagolygon ariannol Grŵp Cynefin, gan sicrhau bod twf yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy wrth gefnogi ein gweledigaeth strategol.







# LLYS AWELON

## Trawsneiwd bywydau pobl hŷn

Mae cwblhau'r prosiect **ailddatblygu ac ehangu gwerth £12.2 miliwn Llys Awelon** yn un o lwyddiannau mwyaf arwyddocaol Grŵp Cynefin yn ystod 2025/26.

Mae'r prosiect wedi darparu cynllun tai gofal ychwanegol modern, carbon isel, a gynlluniwyd i helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth, eu llesiant a'u cysylltiad â'u cymuned.

Mewn partneriaeth â **Chyngor Sir Ddinbych**, **Llywodraeth Cymru** a **Read Construction**, ehangwyd y cynllun o **21 o fflatiau i 56 o gartrefi modern**, gan gynyddu'n sylweddol y gallu i ddiwallu'r galw cynyddol am lety gofal ychwanegol.

Mae'r datblygiad yn cynnwys cyfleusterau cymunedol deniadol, gerddi wedi'u tirlunio, mannau cymdeithasol, bwyty a salon trin gwallt, gan gefnogi cymuned fywiog a chroesawgar i breswylwyr.

Cafodd ansawdd y cynllun ei gydnabod yn genedlaethol pan enillodd **Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu LABC Cymru**, gan gydnabod y safonau eithriadol a gyflawnwyd ym maes dylunio, adeiladu, cynaliadwyedd a gweithio mewn partneriaeth.



*"Mae pobl yn aml yn sôn wrthyf am bwysigrwydd cartref. Nid yw'n ymwneud â brics a morter yn unig; dyma'r lle rydym yn teimlo'n ddiogel, yn cael cysur ac yn mwynhau cwmnïaeth pobl eraill. Dyma hefyd y lle rydym am aros ynddo, gan gadw ein hannibyniaeth, ac i mi mae hynny'n hynod bwysig. Ac o'r hyn rwyf wedi'i weld a'i glywed, dyna'n union sut mae Llys Awelon yn teimlo, mae'n teimlo fel cartref."

**Rhian Bowen-Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

### Llys Awelon ar Gipolwg

- **£12.2 miliwn wedi'i fuddsoddi yn y gwaith ailddatblygu ac ehangu**
- Wedi ehangu o **21 i 56 o fflatiau**
- **£7.1 miliwn** o gyllid gan Lywodraeth Cymru
- Dyluniad modern, **carbon isel**
- Enillydd Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu LABC Cymru
- Yn cefnogi pobl hŷn ledled Sir Ddinbych i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae darparu cartrefi fforddiadwy yn dibynnu ar bartneriaethau cryf. Trwy gydol y flwyddyn, gwnaethom barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, contractwyr ac ymgynghorwyr i oresgyn heriau a datblygu cyfleoedd newydd.

Parhawyd hefyd i ymgysylltu â chymunedau i ddeall yn well yr angen lleol am dai a helpu i lunio cyfleoedd datblygu'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ymgynghori mewn ardaloedd megis **Bae Trearddur**, gan sicrhau bod cynlluniau buddsoddi'r dyfodol yn cael eu llywio gan flaenoriaethau lleol.



Sicrhawyd cyllid parhaus drwy'r **Rhaglen Grant Addasiadau**, gyda dyraniad o **£529,689 ar gyfer 2026/27**, gan ein helpu i addasu cartrefi i ddiwallu anghenion newidiol tenantiaid a chefnogi byw'n annibynnol.

## Edrych Ymlaen

Mae'r galw am dai fforddiadwy yn parhau i fod yn uwch na'r cyflenwad mewn llawer o gymunedau. Er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu'r sector, mae ein rhaglen ddatblygu yn parhau i fod yn ganolog i gyflawni amcanion strategol Grŵp Cynefin.

Gyda chefnogaeth yr uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol, Lle i Berthyn / A Place to Belong, rydym yn parhau'n ymrwymedig i gynyddu'r cyflenwad tai, cefnogi cymunedau gwledig a darparu mwy o gartrefi fforddiadwy ledled Gogledd Cymru a gogledd Powys.

Gyda phiblinell gadarn o gynlluniau ar gyfer y dyfodol, partneriaethau cryf a buddsoddiad parhaus mewn cynllunio a datblygu, rydym mewn sefyllfa dda i gynyddu'r cyflenwad tai a darparu mwy o gartrefi diogel, o ansawdd uchel a chynaliadwy dros y blynyddoedd nesaf.

## Cipolwg

- **32 o gartrefi newydd** wedi'u cwblhau yn ystod 2025/26
- **39 o gartrefi** wedi'u rhagweld i'w cwblhau yn ystod 2026/27
- **204 o gartrefi** wedi'u rhagweld dros gyfnod presennol y **Cynllun Corfforaethol**
- **267 o gartrefi ychwanegol** wedi'u nodi yn y biblinell ddatblygu ar gyfer y dyfodol
- **£12.2 miliwn** wedi'i fuddsoddi yn **Llys Awelon, Rhuthun**
- **Llys Awelon** wedi'i ehangu o **21 i 56 o fflatiau**
- **Enillydd Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu Genedlaethol LABC**
- **£529,689** wedi'i sicrhau drwy'r **Rhaglen Grant Addasiadau** ar gyfer **2026/27**

Bydd ein ffocws yn parhau ar greu cartrefi sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol, yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn cyfrannu at adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn ar draws yr ardaloedd rydym yn eu gwasanaethu.

# EIN IS-GWMNÏAU

## Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych







## Canllaw (Eryri) Cyf

Drwy ein tri phrif wasanaeth, helpodd y sefydliad gyfanswm o 5,611 o bobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u llesiant yn eu cartrefi yn ystod 2024/25.

Cynhaliodd **Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn**, yr asiantaeth gofal a thrwsio leol, 1,352 o asesiadau cartref i gleientiaid hŷn a bregus, gan gynorthwyo ein cleientiaid i fuddsoddi dros £1.6 miliwn mewn gwaith i atgyweirio, gwella neu addasu eu heiddo. Cynhaliodd gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach yr asiantaeth 450 o ymyriadau, gan alluogi 277 o gleifion i ddychwelyd adref yn brydlon o'r ysbyty i amgylchedd cartref diogel. Bu'r asiantaeth hefyd yn helpu cleientiaid i wneud y mwyaf o'u hincwm, gyda 146 o gleientiaid yn cael cymorth i hawlio budd-daliadau lles gwerth cyfanswm o dros £860,000. Cynorthwyodd y gwasanaeth Rheoli'n Well, a ddarperir gan yr asiantaeth, 137 o bobl sy'n byw gyda dementia, colled synhwyraidd neu sydd wedi cael strôc i gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartrefi.





Cynhaliodd gwasanaeth **Canllaw Addasu** 2,337 o waith addasu bach yng nghartrefi cleientiaid, gyda gwerth cyfanswm o £483,000 yn ystod y flwyddyn. Ariannwyd y gwaith hwn drwy grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r *Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym* a rhaglen *Diogelwch yn y Cartref* Cyngor Gwynedd. Cynhaliodd y gwasanaeth hefyd 84 o addasiadau grant mwy ac 88 o waith a ariannwyd yn breifat. Gan weithio'n gydweithredol gyda'n rhiant-sefydliad, cwblhaodd y gwasanaeth 52 o waith adnewyddu ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gyfer Grŵp Cynefin.

Bu gwasanaeth **Canllaw Technegol** yn rheoli nifer o brosiectau ar ran cleientiaid, gan gynhyrchu incwm ffi o £186,000 i'r sefydliad.

### Boddhad cleientiaid

| | |
|---|---|
| Dywedodd fod ein gwasanaeth wedi gwella eu hannibyniaeth a'u llesiant | 77% |
| Byddent yn argymell ein gwasanaethau i eraill | 99% |
| Yn fodlon gyda'r gwasanaeth | 98% |
| Yn fodlon ag ansawdd y gwaith a gyflawnwyd yn eu cartref | 98% |

# CYLLID

| Incwm £'000 | 2026 £'000 | | 2025 £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti | 26,311 | 57.7% | 24,586 | 61% |
| Amorteiddio grant cyfalaf | 3,217 | 7.1% | 2,801 | 7% |
| Gorwel | 2,559 | 5.6% | 2,589 | 6% |
| Tâl Gwasanaeth | 2,945 | 6.5% | 2,832 | 7% |
| Prosiectau eraill | 5,863 | 12.9% | 3,719 | 9% |
| Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych | 2,044 | 4.5% | 1,708 | 4% |
| Canllaw (Eryri) Cyf | 1,887 | 4.1% | 1,596 | 4% |
| Gwerthiannau eiddo | 567 | 1.2% | 463 | 1% |
| Llog | 199 | 0% | 173 | 0% |
| **Cyfanswm** | **45,591** | **100%** | **40,467** | **100%** |

| Gwariant £'000 | 2026 £'000 | | 2025 £'000 | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal a chadw'r stoc tai | 16,146 | 38% | 14,950 | 38% |
| Costau staffio | 7,634 | 18% | 6,870 | 18% |
| Llog Morgais | 5,055 | 12% | 4,426 | 11% |
| Dibrisiant ac amhariad y stoc dai | 4,478 | 10% | 4,011 | 10% |
| Prosiectau eraill | 3,065 | 7% | 3,235 | 8% |
| Arall | 2,506 | 6% | 2,362 | 6% |
| Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych | 1,989 | 5% | 1,642 | 4% |
| Canllaw (Eryri) Cyf | 1,862 | 4% | 1,490 | 4% |
| Adolygiad Amhariad | 0 | 0% | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **42,737** | **100%** | **38,987** | **100%** |



# BWRDD RHEOLI GRŴP CYNEFIN


Tim Jones, Chair


Sally Baxter, Vice-Chair


Jane Lewis


Nigel Finney


David Lloyd


Llinos Iorwerth


Mike Corfield


Paul McGrady


Tony Oakley


Siôn Fôn


Delyth Lloyd


Paul Robinson


David Lewis

Grŵp Cynefin

Lle i Berthyn
A Place to Belong